COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS YMLAEN DYDD LLUN, 22 EBRILL 2024 YN 16:00

Yn Bresennol yn Rhithiol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | N Clarke | C Davies | M J Evans |
| P W Jenkins | G Walter | I Williams | MJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn a/ac W J Kendall

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Ieuan Sherwood | Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd |
| Paul Smith | Rheolwr Rhaglen Datgarboneiddio |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Alasdair Wilcock | Cyfarwyddwr Maple Cone |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim.

## 70. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 dyddiedig 25 Medi 2023, 19 Mawrth 2023 a 26 Mawrth 2024 fel gwir gofnod cywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Ebrill 2024 |

## 71. Cynllun Gwres Caerau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>Trafododd y Pwyllgor mewn manylder y gweithgaredd yr ymgymerwyd ag o fel rhan o Gynllun Gwres Caerau oedd wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a gaewyd, gan gynnwys creu Pecyn Gwresogi Dŵr Mwyngloddio gyda'r argymhellion yn cael eu gwerthuso gan werthuswr allanol, y goblygiadau ariannol a chyfanswm cost gymwys y cynllun oedd wedi eu cymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).<br><br>1) Wedi trafod adroddiad Cynllun Gwres Caerau, roedd yr Aelodau'n teimlo bod cyfle i gryfhau'r prosesu ar gyfer rheoli prosiectau Ymchwil a Datblygu yn y dyfodol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ymgymryd â pheth gwaith ymchwil i brosesau arferion gorau ar gyfer rheoli prosiectau Ymchwil a Datblygu, gan gynnwys rheoli arian a phrotocolau porth mynediad, er mwyn ymgorffori a chryfhau'r prosesau ar gyfer unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol.<br><br>2) Teimlai aelodau ei bod yn bwysig parhau i symud ymlaen, a thra'n deall na fyddai pob prosiect arddangos yn llwyddiannus, o safbwynt y cyhoedd roedd angen i'r Awdurdod fod yn gyfrifol gyda'r arian a ddarparwyd, felly roedd hi'n hollbwysig adeiladu ar wersi a ddysgwyd lle mae arian yn cael ei wario ac archwilio lle gellid gwneud pethau'n wahanol. Fe wnaeth yr Aelodau gydnabod y pecyn a grëwyd gan yr Awdurdod yn dilyn prosiect Gwres Caerau a'r gwersi a ddysgwyd i'w rhannu gydag eraill. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu: " y dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r risgiau ariannol, cyfyngiadau a'r pwysau ar gyfer pob un prosiect tebyg", at y gwersi a ddysgwyd. |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:<br><br>Trafododd yr aelodau y goblygiadau ariannol, beth oedd cost derfynol y prosiect gafodd ei gwario dros hyd y prosiect a gofynnwyd am ddadansoddiad / crynodeb o'r arian a wariwyd ar y prosiect y bu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau argymell iddo gael ei rannu gydag Aelodau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 72. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi - Perfformiad Chwarter 3 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad gwybodaeth ar Berfformiad Chwarter 3 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Ebrill 2024 |

## 73. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad y Flaenraglen Waith a'i atodiadau gan eu nodi, a chytuno bod angen ystyried blaenoriaethau allweddol ar gyfer eitemau yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd yr aelodau hefyd:<br><br>a) Ystyried hyd yr amser ers i'r Pwyllgor Craffu Priffyrdd wneud cais am i adroddiad gael ei ychwanegu i'r Flaenraglen Waith i gynnwys: atgyweiriadau a chynnal a chadw, ailwynebu ffyrdd a thyllau, rheoli rhwydweithiau, rheoli gwasanaethau allweddol, a datblygu metrics atgyweirio mewnol, cau atgyfeiriadau a.y.y.b.<br><br>b) Gwnaeth yr Aelodau gais am i adroddiad gael ei ddarparu ar Gynnydd o safbwynt Tai Gwag yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y rhif, y Polisi Tai Gwag a'r Grantiau oedd ar gael a chytunwyd i hyn gael ei drafod ym mhwyllgor cynllunio gwaith nesaf y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 o ran p'run |

| | |
|---|---|
| | ai a ellid ymgorffori'r pwnc o fewn yr adroddiad Tai oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi 2024.<br><br>c) Yn dilyn cyfarfod briffio gyda Chymoedd i'r Arfordir a fynychwyd gan aelodau o'r Pwyllgor, gwnaeth yr aelodau gais am gyfle i gael trafodaeth bellach gyda Chymoedd i'r Arfordir ynghylch arferion gweithredu.<br><br>d) Cyfeiriodd aelodau at adroddiad Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (DDFG) i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ym mis Ionawr, pan gytunwyd y dylai'r adroddiad DFG nesaf yn cael ei adrodd amdano o flaen Pwyllgor Craffu i wneud penderfyniad arno. Roedd yr aelodau'n teimlo bod yr adroddiad positif cynharach wedi cael ei wrth-ddweud gan y Dangosyddion Perfformiad yr adroddwyd arnynt yn Adroddiad Gwybodaeth Perfformiad Ch3 2023-24 a nodwyd gan y Pwyllgor hwn a gofynnodd y Pwyllgor am i'r adroddiad DFG nesaf gael ei adrodd arno i'r SOSC3 i'w ystyried.<br><br>e) Mynegwyd pryder ynghylch lefelau salwch yn yr Awdurdod a'i effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau pe bai'r salwch yn parhau i gynyddu, yn arbennig felly effaith lefelau salwch mewn perthynas â p'run ai i gaffael neu archwilio dod a gwasanaethau yn fewnol. Cytunodd y Cadeirydd a'r Swyddog Craffu i drafod hyn yn y pwyllgor cynllunio gwaith nesaf gan y byddai'r eitem naill ai o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn neu adroddiad Awdurdod trosfwaol i Bwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Ebrill 2024 |

**74. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 22 Ebrill 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.53